


Adroddiad am:
Bron Brawf Cymru
Sut maen nhw'n cefnogi menywod
i dderbyn gofal mewn da bryd



Fersiwn darllen hawdd



Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn annibynnol ac yn edrych ar yr holl wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



Edrychodd AGIC ar y gwasanaeth y mae Bron Brawf Cymru yn ei ddarparu i fenywod.



Roedd AGIC eisiau gweld a oedd menywod yr oedd angen ail wriad arnyn nhw yn aros yn rhy hir. Os byddan nhw'n aros yn rhy hir, bydd menywod yn pryderu.



Dyma ein hadroddiad Darllen Hawdd. Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma

www.agic.org.uk



Am Bron Brawf Cymru




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am Bron Brawf Cymru.



Mae Bron Brawf Cymru'n gwirio menywod am arwyddion o ganser y fron.




Mae menywod rhwng 50 a 70 oed yn cael eu profi bob 3 blynedd.



Mae staff sydd wedi'u hyfforddi'n gwneud prawf pelydr-X i wirio am arwyddion o ganser y fron. Mamogram yw enw y prawf pelydr-X.



Weithiau, mae'r prawf pelydr-X yn dangos y posibilrwydd bod gan fenyw ganser y fron. Os bydd hyn yn digwydd, mae'r fenyw yn cael ei galw yn ôl am ail brawf.



Mae'r ail wiriad yn cael ei wneud mewn clinig, ble mae mwy o brofion yn cael eu gwneud. Bydd y profion yn dangos a oes gan fenyw ganser y fron.



Gall cael eich galw yn ôl am fwy o brofion fod yn frawychus iawn a bydd menywod yn pryderu. Mae llawer o fenywod sy'n cael eu galw yn ôl yn darganfod nad oes ganddyn nhw ganser.

Os bydd y profion yn darganfod canser y fron mae'r fenyw yn cael ei thrin gan ei bwrdd iechyd lleol.



Beth gwnaethon ni

1	✓
2	✓
3	✓
4	✓

Edrychon ni ar 4 prif beth:



- Pa mor dda oedd y gwasanaeth i fenywod.
- Y staff a pha mor dda roedden nhw'n gweithio gyda'i gilydd.
- Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg.
- Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli.



Siaradon ni â staff a rheolwyr.
Aethon ni i'r brif swyddfa ac i'r
canolfannau lleol. Mae 3 chanolfan
leol mewn rhannau gwahanol o
Gymru.



Gwnaethon ni arolwg staff i
ddarganfod beth oedd staff yn
meddwl am y gwasanaeth.



Gwnaethon ni arolwg o fenywod
sydd wedi gorfod cael ail wiriad a
phrofion.

Gofynnnon ni ddim ond i fenywod
nad oedd ganddyn nhw ganser.



Anfonon ni 1066 o ffurflenni allan ac
fe dderbynion ni 621 o ffurflenni yn ôl.



Dyma'r wybodaeth a gawson ni



Pa mor dda oedd y gwasanaeth i fenywod.

Roedd y profiad yn bositif iawn.
Dywedodd llawer o'r menywod ei fod yn ardderchog.



Cafodd menywod eu trin gyda pharch, ac fe ddywedon nhw fod y staff yn dda iawn. Roedden nhw'n garedig ac yn ofalgar.

Roedd y staff yn gwybod faint o straen yr oedd yn achosi i fenywod sy'n cael eu galw yn ôl am fwy o brofion. Roedd y staff eisiau helpu menywod, ac eisiau nhw i gael gwasanaeth da.





Mae gan Bron Brawf Cymru lawer o staff gwahanol, o nyrsys hyfforddedig ac arbenigwyr pelydr-X i weinyddwyr a gweithwyr swyddfa.



Mae Nyrsys Gofal y Bron ym mhob ardal. Maen nhw'n cefnogi'r claf yr holl ffordd trwy'r broses.

1	✓
2	✓
3	✓
4	✓

Ysgrifennodd y Nyrsys Gofal y Bron safon ar gyfer gofal ar draws Cymru. Gwriodd nyrsys yn Abertawe i weld a oedd y safon yn cael ei chyflawni.

Roedd y canlyniadau'n bositif. Fe ddaethon nhw o hyd i rai ffyrdd newydd o wella'r gwasanaeth hefyd.

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:



- Gopio gwiriadau Nyrsys Gofal y Bron Abertawe ar draws Cymru.
- Ysgrifennu cynllun ar gyfer pob menyw i ddangos beth sy'n digwydd pryd ac i ddweud pwy i siarad â nhw.



Derbyn gofal mewn da bryd



Mae'n achosi straen a gofid i gael gwybod bod angen i chi ddod yn ôl am ail wriad a phrofion. Dydy menywod ddim yn gwybod a oes ganddyn nhw ganaser.

Mae'n bwysig cael y profion yn gyflym.



Mae llythyr yn cael ei anfon at fenywod i ddweud wrthyn nhw a oes angen iddyn nhw gael ail wriad a phrofion.

Dylai menywod gael y profion o fewn 3 wythnos ar ôl y prawf pelydr-X cyntaf.

Mae llawer o fenywod yn cael eu gweld o fewn 3 wythnos.



Mae'n rhaid i rai menywod aros am amser hirach. Mae hyn yn waeth mewn rhannau gwahanol o Gymru.

Pryderon a gofidion



Does dim digon o staff mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'n waeth yng Ngorllewin Cymru. Mae hyn yn golygu bod menywod yn aros yn hirach am eu profion a byddant yn poeni.



Gwybodaeth i fenywod



Mae cyfathrebu gyda menywod yn dda ar y cyfan.



Mae taflen yn cael ei hanfon at fenywod sy'n dweud wrthyn nhw beth fydd yn digwydd ym mhob apwyntiad.



Mae rhai staff yn poeni efallai nad yw'r taflenni'n esbonio'n glir pa mor hir y mae'n rhaid i chi aros am eich canlyniadau.



Mae llythyr byr yn cael ei anfon at fenywod sydd angen mwy o brofion.

Mae'r staff yn meddwl y bydd y llythyr yn gwneud i fenywod boeni os yw'n dweud gormod.



Caniatâd



Mae angen i fenywod ddeall beth fydd yn digwydd fel y gallan nhw benderfynu a ydyn nhw eisiau'r profion.



Os nad oes rhywun yn deall, mae'r staff yn gweithio gyda gofalwr neu berthynas i helpu esbonio.



Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Newid y taflenni i ddangos yr amserau aros cywir.
- Ysgrifennu'r llythyr apwyntiad eto i'w wneud yn llai brawychus.



Siarad Cymraeg



Sut dych chi

Efallai y bydd yn well gan rai
menywod siarad Cymraeg.



Mae'n anodd ddod o hyd i weithwyr
newydd a all siarad Cymraeg mewn
rhai rhannau o Gymru.



Darganfod barn menywod



Mae Bron Brawf Cymru'n gwneud arolygon i ddarganfod beth mae menywod yn meddwl.



Does dim llawer o fenywod yn llenwi'r arolygon.

Mae'r mwyafrif o'r adborth yn dda.



Dylai lechyd Cyhoeddus Cymru:

- Feddwl am ffyrdd newydd o wneud yr arolwg. Mae ar bapur ond fe allai fynd ar-lein.



Y staff a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd



Mae'r staff yn hapus iawn yn y gwaith ac yn gofalu am beth maen nhw'n gwneud.

Mae'r staff eisiau i fenywod gael gwasanaeth da.



Siaradodd staff ym mhob un o'r 3 chanolfan leol gyda ni am beth oedd eu barn nhw am y gwasanaeth.



Mewn rhai rhannau o Gymru doedd dim digon o staff ac mae hyn yn golygu y gall menywod aros am amser hir am brofion.



Mae hyn wedi bod yn digwydd ers amser hir yng Ngorllewin Cymru.



Dywedodd staff wrthym ni eu bod yn poeni achos does dim digon o staff. Nid oedd hyn yn broblem yng Ngogledd Cymru.

Mae'n anodd llenwi'r holl swyddi achos does dim digon o bobl ar gael a all wneud rhai o'r swyddi.



Mae hynny yn golygu does dim digon o staff mewn rhai rhannau o Gymru i wneud profion pelydr-X neu i wneud y profion ar fenywod i wirio am ganser y fron.



Mae rhai o'r canolfannau lleol yn rhannu staff. Mae hyn yn helpu ond does dim cynllun i ddangos sut fydd hynny yn gweithio yn y dyfodol.



Os nad oes digon o staff, mae'n bosib y bydd menywod yn derbyn eu profion a'u canlyniadau'n hwyr.

Gofidion a phryderon



Mewn rhai rhannau o Gymru does dim digon o staff ac mae hyn yn golygu y gall menywod aros am amser hir am brofion a chanlyniadau.



Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Gael cynllun clir am sut mae staff mewn rhannau gwahanol o Gymru'n gweithio gyda'i gilydd.



Cynllunio Staff



Mae Bron Brawf Cymru'n rhoi llawer o hyfforddiant i'r staff sy'n gwneud y profion pelydr-X. Mae hyn yn golygu y gallan nhw wneud tasgau ychwanegol fel gwirio'r lluniau pelydr-X i weld a oes unrhyw arwyddion o ganser y fron.



Dywedodd llawer o'r staff wrthym ni mai dyma rywbeth yr oedd Bron Brawf Cymru yn ei wneud yn dda.



Dechreuodd Bron Brawf Cymru ffordd newydd o wirio'r lluniau pelydr-X yng Ngorllewin Cymru. Mae staff yng Ngogledd Cymru yn awr yn gwirio lluniau pelydr-X menywod o Orllewin Cymru. Mae hyn oherwydd nad oes digon o staff yng Ngorllewin Cymru i wneud hyn.



Dywedodd staff wrthym ni ei fod yn gweithio'n dda ac yn helpu i wneud y gwasanaeth yn gyflymach.



Mae Bron Brawf Cymru wedi dechrau cynllun i staff i ddangos beth fydd yn cael ei wneud yn y dyfodol. Mae hwn yn bwysig, ond dim ond rhai staff oedd yn gwybod amdano.

Pryderon a gofidion



Mae problemau wrth ddod o hyd i ddigon o staff i wneud y profion ar fenywod.



Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Gael cynllun staff. Mae'n rhaid i'r cynllun edrych ar nawr ac ar y dyfodol. Dylai'r staff i gyd weld y cynllun.



Hyfforddiant ar gyfer staff



Mae'r mwyafrif o staff yn meddwl eu bod yn cael hyfforddiant da.



Mae staff yn meddwl bod rheolwyr yn cefnogi nhw i gael hyfforddiant.



Mae cysylltiadau da gyda'r prifysgolion.
Efallai y bydd hyn yn helpu i ddod o hyd i fwy o staff hyfforddedig yn y dyfodol.

Pryderon a gofidion



Mae'n fwy anodd i gael hyfforddiant yng Ngogledd Cymru.

Does dim digon o staff, mae hyn yn golygu ei fod yn anodd i ddod o hyd i amser ar gyfer hyfforddiant.

Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:



- Sicrhau bod digon o hyfforddiant ar gael ar gyfer staff yng Ngogledd Cymru.
- Ysgrifennu cynllun ar gyfer hyfforddi'r holl staff ar draws Cymru.



Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg



Mae Bron Brawf Cymru'n cael ei redeg yn dda ac mae staff yn gwybod beth i wneud.



Mae systemau da ganddyn nhw i osgoi camgymeriadau.



Mae llythyron am apwyntiadau menywod yn cael eu hanfon mewn da bryd.



Pan fydd staff yn anfon llythyron maen nhw'n ceisio osgoi rhoi straen ar gleifion. Os bydd angen i fenyw gael gwiriad arall maen nhw'n ceisio gwneud hynny o fewn 3 wythnos.



Mae'r llythyr yn cael ei anfon 1 wythnos cyn yr apwyntiad. Mae hyn fel nad yw menywod yn poeni am amser hir.



Nid yw Bron Brawf Cymru'n anfon apwyntiadau neu nodiadau atgoffa trwy neges destun neu e-bost. Gallai anfon neges destun neu e-bost helpu i atgoffa menywod am apwyntiadau.



Dylai lechyd Cyhoeddus Cymru:

- Edrych ar sut y gall technoleg helpu dweud wrth fenywod am apwyntiadau.



Gwneud yn siŵr bod popeth yn gweithio'n dda




Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl fenywod yn cael eu profion a'u canlyniadau mewn da bryd.



Mae gan Bron Brawf Cymru systemau da i sicrhau nad yw unrhyw gamgymeriadau'n cael eu gwneud.



Mae llawer o wiriadau i wneud yn siŵr o hyn. Mae hyn yn cymryd llawer o amser staff.



Mae gan Bron Brawf Cymru lawer o bolisiau a gweithdrefnau.



Weithiau, mae'r canolfannau lleol yn gwneud pethau mewn ffordd sy'n wahanol i'w gilydd. Efallai y bydd hyn yn broblem pan fydd y canolfannau yn gweithio gyda'i gilydd.



Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Weld a all bob canolfan weithio yn yr un ffordd yn lle gwneud pethau mewn ffordd wahanol.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwybod pan fydd newidiadau yn y polisiau a gweithdrefnau.



Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli



Mae gan Bron Brawf Cymru systemau rheoli da. Mae pobl yn gwybod beth mae angen iddyn nhw wneud.



Mae staff o bob un o'r canolfannau'n adrodd i'r pennaeth sgriniadau ar gyfer Cymru.



Bydd staff yn adrodd problemau a chamgymeriadau os bydd angen. Mae hyn yn helpu cynllunio i osgoi camgymeriadau yn y dyfodol.



Dylai lechyd Cyhoeddus Cymru:


- Sicrhau eu bod nhw'n dweud wrth staff am ganmoliaeth yn ogystal â chwynion.



Gwirio cydraddoldeb



Mae Bron Brawf Cymru'n dda wrth wirio a ydyn nhw'n gwneud y swydd yn dda.



Mae adroddiad rheolaidd am gyflawni targedau ar gyfer apwyntiadau a chanlyniadau.



Mae Bron Brawf Cymru'n dda wrth wirio bod y staff sy'n gwneud y profion yn gwneud eu gwaith yn dda.



Dyma'r wybodaeth a gawson ni



Cafodd y mwyafrif o fenywod yr oedd yn rhaid iddynt ddod yn ôl am fwy o brofion brofiad da iawn.

Mae staff Bron Brawf Cymru yn:

- Ofalgar
- Ymroddedig
- Angerddol am eu swyddi



Mae rheolau da i sicrhau bod menywod yn cael y canlyniadau iawn.



Mae problemau wrth ddod o hyd i ddigon o staff. Mae Bron Brawf Cymru wedi rhannu staff mewn rhai canolfannau lleol i sicrhau bod menywod yn cael profion a chanlyniadau mewn da bryd.



Mae pob canolfan Bron Brawf Cymru wedi bod yn gweithio eu ffordd eu hunain gan mwyaf.

Mae hyn yn newid.

Bydd mwy o weithio ar draws Cymru gyfan.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae angen i Bron Brawf Cymru feddwl am ein hadroddiad ni.



Mae'n rhaid i Bron Brawf Cymru ysgrifennu cynllun i ddweud sut y byddan nhw'n gwneud yr holl bethau rydyn ni wedi dweud sydd angen eu gwella.



Byddwn ni'n gwirio a fyddan nhw'n gwneud popeth.